Copyright Licensing Agency

Canllawiau copïo ar gyfer holl staff GIG Cymru

Mae Trwydded CLA ar gyfer GIG Cymru yn caniatáu i staff GIG Cymru gopïo a rhannu darnau o'r rhan fwyaf o weithiau printiedig a digidol cyhoeddedig

Beth yw ystyr copïo

Gallwch lungopïo, sganio neu ar-graffu darnau o'r rhan fwyaf o ly-frau a chyfnodolion printiedig ac electronig y mae GIG Cymru yn berchen arnynt neu'n talu amdanynt.

I gael gwybod a allwch gopïo cyhoeddiad o dan y drwydded rhowch y teitl neu ISBN/ISSN yn Gwirio Caniatadau ar-lein CLA yn:

cla.co.uk/nhs-wales-licence

Faint alla i ei gopïo?

- Hyd at un bennod neu 5% o lyfr, p'un bynnag yw'r mwyaf
- Hyd at ddwy erthygl o un rhifyn o gyfnodolyn
- O fewn y terfynau hyn gallwch hefyd wneud copïau lluosog a chopïau o gopïau

Sut galla i rannu

Gallwch rannu copïau â chydweithwyr GIG Cymru gan gynnwys trwy'r e-bost.

Storio: Gallwch storio copïau naill ai ar gyfrifiadur personol lleol ar gyfer eich defnydd personol eich hun neu ar rwydwaith diogel i gydweithwyr gael mynediad atynt.

Pwy sydd wedi'i gynnwys o dan y drwydded

Pob aelod o weithlu GIG Cymru, gan gynnwys staff gofal sylfaenol, gofal hosbis ac iechyd cyhoeddus a myfyrwyr ar leoliad.

Gofynnwch i'ch llyfrgell leol a gwasanaeth gwybodaeth am ragor o fanylion.

Eich rhwymedigaethau:

Mae'n bwysig diogelu hawliau perchnogion hawlfraint. Copïwch o fewn y terfynau hyn bob amser. Cydnabyddwch ffynonellau gwybodaeth bob amser pan fyddwch yn ysgrifennu. Ar gyfer unrhyw ymholiadau hawlfraint gofynnwch i'ch Hyrwyddwr Hawlfraint neu cysylltwch â CLA yn uniongyrchol ar cs@cla.co.uk.

Mae'r Canllawiau hyn, a ddiweddarwyd yn Ionawr 2016, yn cael eu cyhoeddi i gefnogi Trwydded CLA ar gyfer GIG Cymru. Nid ydynt yn drech na neu'n darparu dehongliad terfynol o Delerau'r Drwydded. Yn achos unrhyw wrthdaro, bydd Telerau ac Amodau'r Drwydded yn drech bob amser.

NHS_20200124